# PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

## 18 EBRILL 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, J.A. Davies, K. Davies, P.M. Edwards, S.J.G. Gilasbey, T.M. Higgins, E. Morgan, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, A.D.T. Speake, D. Thomas ac A. Vaughan Owen.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr H.A.L. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd
Y Cynghorwyr P.M. Hughes, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio;
K. Harrop, Rheolwr Diogelwch Cymunedol;
D.W. John, Rheolwr y Gwasanaethau Gwastraff;
R. James, Swyddog Cynllunio Perfformiad a Busnes;
A. Kenyon, Uwch Swyddog Rheoli Perfformiad;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin – 10:00yb - 11:30yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd A. Davies
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Morgan i'r Pwyllgor.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIP A NODWYD MEWN PERTHYNAS AG UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CHWARTER 3 – 1 EBRILL I 31 RHAGFYR 2018

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 3 - 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2018, a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau a'r mesurau yn Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2018/19 o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant o fewn ei faes gorchwyl.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y modd y cafodd yr adroddiad ei gyflwyno yn annerbyniol, cyfeiriwyd at destun oedd ar goll a fformat y data. Roedd yr Uwch-swyddog Rheoli Perfformiad yn cydnabod y cafwyd anawsterau o ran fformatio'r adroddiad a gafwyd o'r System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS) a sicrhaodd y Pwyllgor y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud i adroddiadau yn y dyfodol.

- Cyfeiriwyd at y mesur sy'n ymwneud â'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith a gymerir i glirio achosion o dipio anghyfreithlon. Codwyd cwestiwn ynglŷn â'r statws perfformiad nad oedd wedi cyrraedd y targed ac os oedd hyn o ganlyniad i gyflwyno'r rheolau newydd. Yn ôl y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff, er y bu ychydig o gynnydd mewn tipio anghyfreithlon, ar y cyfan nodwyd nad oedd y targed wedi'i gyrraedd yn bennaf oherwydd y newidiadau yn y dulliau categoreiddio a chofnodi.

  Mewn ymateb i sylwadau a godwyd mewn perthynas â'r cynnydd mewn tipio anghyfreithlon a'r cyfrifoldeb o dipio anghyfreithlon ar dir preifat, pwysleisiodd y Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff pe bai tipio anghyfreithlon yn digwydd ar dir preifat, cyfrifoldeb y tirfeddiannwr fyddai i waredu unrhyw eitemau a gafodd eu tipio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio gydag asiantaethau partner pan fo'n briodol gan gynnwys yr Heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill ar sail amlasiantaethol i helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar dir preifat.

  Mewn ymateb i ymholiad pellach, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai'n cysylltu â'r grwpiau gorfodi mewnol i ymchwilio i ffyrdd posibl o roi cymorth ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon ar dir preifat.

  Codwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r newidiadau diweddar i'r canolfannau ailgylchu. Ategodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff i'r Pwyllgor y rhesymau pam yr oedd angen y newidiadau ac esboniodd fod gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:-

  - Oriau agor newydd y canolfannau ailgylchu
  - Yr hyn sy'n ofynnol o ran prawf preswylio
  - Pam y mae cynllun hawlen yn cael ei gyflwyno
  - Sut y mae'r cynllun hawlen yn gweithio
  - Gwybodaeth am wneud cais am hawlen
  - Pa fath o gerbydau sydd angen hawlen.
  - Pa gerbydau sydd wedi cael eu gwahardd

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff nad oedd y daflen a roddai ganllawiau ar y math o gerbydau sy'n cael mynediad i ganolfannau ailgylchu a ddarparwyd i Aelodau'r Pwyllgor ym mis Chwefror wedi newid, gan fod nodau cyffredinol y cyfyngiadau'r un fath. Fodd bynnag, roedd newidiadau wedi'u gwneud yn y modd y cafodd ei gyflwyno i ddarparu rhagor o eglurder ar y mathau/grwpiau o gerbydau a byddai'n anfon y fersiwn derfynol at Aelodau'r Pwyllgor.

- Cyfeiriwyd at ddiffyg targed ar gyfer y cam gweithredu yn ymwneud â lleihau'r defnydd o ynni/allyriadau carbon ym mhortffolio adeiladau annomestig presennol y Cyngor (mae cam gweithredu 13251 yn cyfeirio at hyn). Nodwyd bod angen gosod targed clir ar gyfer y cam gweithredu hwn er mwyn i'r Cyngor ymdrechu i weithio tuag at ganlyniad sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Nodwyd ymhellach, ar hyn o bryd, heb darged penodol, mai ' busnes fel arfer ' oedd y cam gweithredu ac er ei bod yn braf nodi bod mesurau'n cael eu gweithredu i leihau'r defnydd o ynni, gofynnwyd sut yr oedd llwyddiant yn cael ei fesur? Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai'r sylwadau a fynegwyd yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol ac efallai y byddai modd cynnwys y mesur hwn yn y Cynllun Gweithredu Di-garbon Net.

- Cyfeiriwyd at yr adolygiad o'r cyfraddau presennol ar gyfer ailgylchu gwastraff y cartref er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o wastraff yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi ac er mwyn cynyddu ailgylchu. Gofynnwyd a oedd y rhaglen o ddrws i ddrws wedi'i chwblhau ac, os felly, pa aelwydydd oedd yn rhan o'r rhaglen? Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod y rhaglen o ddrws i ddrws bellach wedi'i chwblhau ac y byddai'n anfon rhestr o'r aelwydydd yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r rhaglen at yr Aelodau.

- O ran buddsoddi yn Llwybr Beicio Dyffryn Tywi (mae cam gweithredu 13264 yn cyfeirio at hyn), cydnabuwyd er ei bod yn braf gweld y datblygiad yn mynd rhagddo, gofynnwyd pam mae angen buddsoddiad ariannol mawr i ddatblygu llwybrau beicio a oedd eisoes yn bodoli. Esboniodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod ceisiadau am gyllid a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Teithio Llesol yn cael eu blaenoriaethu gan Deithio Llesol ar ôl hynny.

- Yn dilyn cais am ddiweddariad ar y camau gweithredu sy'n ymwneud â gwella integreiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau rheilffordd yn Sir Gaerfyrddin (mae cam gweithredu 13269 yn cyfeirio at hyn), rhoddodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd esboniad ar lafar o sefyllfa'r cyllid, a oedd wedi bod yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn dros yr 8 mlynedd diwethaf yn anffodus. Roedd astudiaethau'n parhau mewn cysylltiad â gwella'r gwasanaeth rheilffordd o'r Dwyrain i'r Gorllewin ac fel y nodwyd yn y camau gweithredu, roedd y gwaith eisoes wedi dechrau ar y gwelliannau, fodd bynnag, cydnabuwyd bod llawer iawn o waith eto i'w wneud.

- Cyfeiriwyd at y camau a oedd yn cael eu cymryd i wella'r seilwaith ar gyfer defnyddio cerbydau trydan (mae cam gweithredu 13270 yn cyfeirio at hyn). Nodwyd nad oes gan Gyngor Sir Caerfyrddin bolisi o ran gwefru ceir trydan ar hyn o bryd ac y gallai'r Cyngor fod yn gwneud mwy o ran sicrhau bod datblygiadau masnachol preifat yn darparu cyfleusterau ar gyfer gwefru ceir trydan. Esboniodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd, er mwyn sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cynnwys y seilwaith sy'n ofynnol ar gyfer y nifer cynyddol o gerbydau trydan, ac i gynorthwyo gyda dyheadau Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer defnyddio cerbydau trydan yn y dyfodol, bydd disgwyl i bob datblygiad yn y dyfodol ddarparu pwyntiau gwefru mewn canran o'r ddarpariaeth barcio. Byddai hyn yn cael ei alluogi drwy gyfrwng Canllaw Dylunio Priffyrdd y Cyngor sy'n nodi y bydd y Cyngor yn disgwyl i bwyntiau gwefru trydan gael eu darparu ar gyfradd o 3% o blith y ddarpariaeth barcio gyffredinol ym mhob datblygiad masnachol a bod manylion am sut y byddai datblygwyr yn darparu ac yn rheoli hyn yn cael eu cynnwys mewn Asesiad Trafnidiaeth ategol.

- Gofynnwyd am ddiweddariad o ran cynnydd mewn perthynas â'r prosiect LED - Buddsoddi i Arbed a'r Cynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod y Bwrdd Gweithredol wedi cymeradwyo'r rhaglen Buddsoddi i Arbed gan ganiatáu i gam nesaf y prosiect ddechrau. Byddai cynnig yn cael ei anfon at Gynghorau Tref a Chymuned yn fuan.

  Yn ogystal, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd y byddai'r cynnig hefyd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned sydd i'w gynnal ar 19 Mehefin 2019. Byddai cyfle i'r rhai a fyddai'n bresennol i ofyn cwestiynau ynghylch y prosiect newid i oleuadau LED ac i gyfleu unrhyw bryderon ynghylch y cynnig.

  Gofynnwyd a fyddai unrhyw gyfle i Gynghorau Tref a Chymuned gymryd cyfrifoldeb dros y goleuadau, yn enwedig ar ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu. Eglurodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd wrth y Pwyllgor, o dan adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980, y gallai awdurdod lleol lunio cytundeb cyfreithiol gyda datblygwr i fabwysiadu priffordd, ar yr amod bod y briffordd wedi cael ei hadeiladu i safon benodedig ac mewn modd sy'n bodloni'r awdurdod priffyrdd lleol. Fodd bynnag, yn ystod y broses drawsgludo yn aml nid yw rhai preswylwyr yn ystyried nad oes gorfodaeth ar yr awdurdod priffyrdd i ymrwymo i gytundeb adran 38.

  Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cael ymateb i lythyr y Pwyllgor a anfonwyd at yr Aelod Cynulliad mewn perthynas ag adolygu cytundeb adran 38 (Agenda 5 ar 10 Rhagfyr 2018 yn cyfeirio at hyn). Roedd y llythyr yn cydnabod pryderon y Pwyllgor ac yn tynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tasglu a fyddai'n ceisio datrys y problemau parhaus o ran ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu.

- Gan gyfeirio at weithred 13191, mynegwyd pryder ynghylch geiriad y cam gweithredu. Teimlwyd y dylid pennu targed clir yn hytrach na nodi 'byddwn yn parhau i fonitro' er mwyn gweithio tuag at leihau'r lefelau $NO_2$ presennol o fewn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a nodwyd. Roedd y Pennaeth Cartrefi Chymunedau Mwy Diogel yn cydnabod nad oedd targed penodol ar gael ac y byddai'n cysylltu â'r tîm ar y mater hwn.

  Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd y byddai'r Cyngor yn cael anawsterau i wella ansawdd aer mewn mannau penodol oherwydd y cynnydd yn nifer y ceir a'r cartrefi. Adleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd y sylwadau a chytunodd y byddai'r cynnydd yn nifer y cerbydau ar y ffyrdd yn peri anawsterau o ran cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr aer.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW A'R GYLLIDEB GYFALAF 2018/19

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf a Refeniw dyddiedig 31 Rhagfyr mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2018/19. Roedd yr adroddiad yn rhoi i'r aelodau wybodaeth am fonitro'r gyllideb ar gyfer Gwasanaeth yr Amgylchedd, Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, a'r Gwasanaeth Diogelwch Cymunedol ac roedd yn rhoi ystyriaeth i'r sefyllfa gyllidebol.

I grynhoi, roedd y gyllideb refeniw ar gyfer y gwasanaethau o fewn maes gorchwyl Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn rhagweld gorwariant o £447k.

Roedd y prif amrywiannau ar gynlluniau cyfalaf yn dangos gwariant net rhagweladwy o £16,252k o gymharu â chyllideb net weithredol o £16,401k gan roi amrywiant o £-149k.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 6. ADRODDIAD AR GAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR CRAFFU - DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

Cafodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnwys manylion am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r camau, ceisiadau, neu atgyfeiriadau a gododd o gyfarfodydd ers 18 Mai 2018.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

- <u>Gweithred 009-18/19</u>

  Yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd yn yr adroddiad, darparodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel ddiweddariad llafar pellach i roi sicrwydd fod y Pwyllgor wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a roddodd rybudd i'r cwmni dan sylw a bod y cosbau priodol wedi'u nodi. Yn ogystal, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynyddu nifer yr ymweliadau safle o ran rheoli ac roedd yn fodlon â'r camau a gymerwyd.

Yn sgil y cynnydd a wnaed, dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod yr adran yn hyderus na fyddai digwyddiad arall tebyg i'r pla o glêr a gafwyd y llynedd.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch ymweliadau safle, cadarnhaodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymweld yn rheolaidd â safle'r cwmni ar sail ad-hoc. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd y byddai'r ymweliadau safle ychwanegol a gynlluniwyd, ynghyd â chyflwyno mesurau ychwanegol i reoli plâu, yn osgoi unrhyw achosion posibl o bla.

- Gweithred 011-18/19

O ran cyfraniadau Adran 106, gofynnwyd sut y penderfynir ar lefel y cyfraniad a geisir a phwy sy'n penderfynu sut y caiff y cyfraniadau eu gwario. Eglurodd y Pennaeth Cynllunio, o ran lefel y cyfraniad a geisir, fod fformiwla wahanol ar gyfer y gwahanol fathau o angen a nodir. Er enghraifft, roedd y dull o gyfrifo cyfraniadau mewn perthynas â mannau agored yn wahanol i'r modd y cyfrifir cyfraniadau ar gyfer tai fforddiadwy neu anghenion addysg.

Eglurodd y Pennaeth Cynllunio y pwysigrwydd i Aelodau Lleol gymryd rhan yn gynnar yn y broses pan oedd lefel y cyfraniadau yn cael eu trafod naill ai yn ystod y cam cyn ymgeisio neu ar ôl i gais cynllunio ddod i law. Dylai'r Aelod Lleol, ar yr adeg honno gyflwyno unrhyw anghenion y mae'n ymwybodol ohonynt a thrafod hyn â'r adran berthnasol e.e. Addysg os oedd yr angen yn ymwneud ag ysgolion yn ogystal â thrafod gyda'r Swyddog Achos Cynllunio. Hefyd, rhaid i unrhyw anghenion a nodwyd gael eu hategu gan dystiolaeth i brofi'r angen hwnnw. Mae'r penderfyniad yn ystod y cam cais cynllunio yn pennu'r swm a'r math o angen y dylid ei fodloni. Nodir y manylion hyn yn Adran 106. Ar ôl i'r Is-adran Gynllunio gasglu'r arian hwnnw, gellid cyflwyno ceisiadau ar gyfer defnyddio'r gwahanol gronfeydd arian. Yna, ymgynghorir â'r Aelod Lleol ar ôl derbyn datganiad o ddiddordeb. Bydd y penderfyniad terfynol o ran a fu'r datganiad o ddiddordeb yn llwyddiannus yng ngofal y Pennaeth Cynllunio.

Nododd y Pennaeth Cynllunio, o ganlyniad i Drosglwyddo Asedau, fod angen ailedrych ar y fethodoleg ar gyfer nodi anghenion mannau agored. Byddai hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ac, yn y cyfamser, byddai angen nodi ffordd ymlaen dros dro. Roedd swyddogion ar hyn o bryd yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r sefyllfa dros dro.

Gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad o'r cyfraniadau Adran 106 fesul ward. Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio fod adroddiad yn cael ei lunio fesul ward ddwywaith y flwyddyn ar gyfer Pwyllgor Craffu - Cymunedau a byddai copi'n cael ei ddarparu er gwybodaeth ar yr un pryd i'r Pwyllgor Craffu -Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd. At hynny, y bwriad oedd cyd-gynnal trafodaethau Adran 106 gyda datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy bresenoldeb y Tîm Blaengynllunio yn y cyfarfodydd Grŵp a oedd i'w cynnal dros fisoedd yr haf eleni.

Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch proses Adran 106 a therminoleg gysylltiedig, eglurodd y Pennaeth Cynllunio, er nad oedd y broses wedi newid a bod y diffiniadau yn aros yr un peth, roedd rhai gwelliannau i'r broses weinyddu a'r broses fonitro wedi cael eu cynllunio. Anogwyd yr Aelodau i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch y broses yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cynllunio.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Derbyniodd y Pwyllgor yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf a oedd wedi cael ei drefnu ar gyfer 17 Mai 2019.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o'r eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 17 Mai 2019.**

## 8. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 22AIN CHWEFROR 2019 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 22 Chwefror, 2019 yn gofnod cywir.**

___________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**